Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2023 Rhif 1304 (Cy. 234)

# ADEILADU AC ADEILADAU, CYMRU

## Rheoliadau Adeiladu (Y Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu) (Cofrestru, Sancsiynau ac Apelau) (Cymru) 2023

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi cyfnodau ar gyfer cofrestru arolygydd cofrestredig adeiladu a chymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu, yn nodi'r sancsiynau ar gyfer cymeradwywyr cofrestredig rheolaeth adeiladu ac yn ymdrin ag apelau ynghylch penderfyniad sydd wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru, sef yr awdurdod rheoleiddio o ran Cymru, o dan Ran 2A o Ddeddf Adeiladu 1984 ("y Ddeddf").

Mae rheoliad 2 yn rhagnodi'r cyfnod ar gyfer cofrestru arolygydd cofrestredig adeiladu.

Mae rheoliad 3 yn rhagnodi'r cyfnod ar gyfer cofrestru cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu.

Mae rheoliad 4 yn nodi, pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud gorchymyn disgyblu, fod rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, roi copi o'r gorchymyn disgyblu i bob awdurdod lleol yng Nghymru pan fo cofrestriad cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu wedi ei amrywio, wedi ei atal am gyfnod penodedig, neu wedi ei ganslo o ddyddiad penodedig.

Mae rheoliad 5 yn darparu, pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud neu'n dirymu gorchymyn o dan adran 58V o'r Ddeddf, fod rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, roi copi o'r gorchymyn atal dros dro interim i bob awdurdod lleol yng Nghymru pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y toriad a amheuir mor ddifrifol fel eu bod, os ydynt yn penderfynu bod y toriad wedi digwydd, yn debygol

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

o wneud gorchymyn o dan adran 58U(2)(d) o'r Ddeddf yn canslo cofrestriad y person.

Mae rheoliad 6 yn ymwneud ag apelio penderfyniad a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ran 2A o'r Ddeddf. Mae rheoliad 6(1) yn nodi, os gwneir apêl, fod rhaid iddi gael ei gwneud drwy gŵyn i'r llys ynadon. Mae rheoliad 6(2) yn nodi'r seiliau dros apelio. Mae rheoliad 6(3) yn nodi'r terfyn amser ar gyfer apelio. Mae rheoliad 6(4) yn nodi'r rhwymedïau sydd ar gael i'r llys ynadon ar apêl.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac fe'i cyhoeddir ar www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2023 Rhif 1304 (Cy. 234)

# ADEILADU AC ADEILADAU, CYMRU

## Rheoliadau Adeiladu (Y Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu) (Cofrestru, Sancsiynau ac Apelau) (Cymru) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *1Rhagfyr 2023* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *5 Rhagfyr 2023* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ionawr 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1, 58C(5), 58O(4), 58U(4)(b)(ii) a 58V(4)(b)(ii) o Ddeddf Adeiladu 1984(**1**), a pharagraff 1I o Atodlen 1 iddi, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru, mewn cysylltiad â'r Rheoliadau, yn unol ag adran 14(7)(**2**) o Ddeddf 1984, wedi ymgynghori â Phwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu ac unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

(**1**) 1984 p. 55. Diwygiwyd adran 1 gan adran 1 o Ddeddf Adeiladau Cynaliadwy a Diogel 2004 (p. 22) a pharagraff 2 o Atodlen 5 i Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 p. 30 ("Deddf 2022") sydd, ymhlith pethau eraill, yn rhoi "appropriate national authority" yn lle cyfeiriadau at yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 1(1) o Ddeddf Adeiladu 1984 ("Deddf 1984"). Ystyr "appropriate national authority" o ran Cymru yw un o Weinidogion Cymru (gweler adran 126 o Ddeddf 1984). Mewnosodwyd adrannau 58C(5), 58O(4), 58U(4)(b)(ii), 58V(4)(b)(ii), 58Z4(5) a 58Z5(7) gan adran 42 o Ddeddf 2022.

(**2**) Diwygiwyd adran 14(7) gan baragraff 17(3) o Atodlen 5 i Ddeddf 2022.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

### Enwi, cymhwyso, dod i rym a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adeiladu (Y Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu) (Cofrestru, Sancsiynau ac Apelau) (Cymru) 2023.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ionawr 2024.

(4) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Adeiladu 1984;

(b) ystyr "y Rheoliadau Adeiladu" yw Rheoliadau Adeiladu 2010(**1**);

(c) ystyr "diwrnodau perthnasol" yw unrhyw ddiwrnod ac eithrio Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sy'n ŵyl banc yng Nghymru a Lloegr o dan adran 1 o Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971 (**2**).

(5) Yn y Rheoliadau hyn, oni nodir fel arall, mae i'r geiriau a'r ymadroddion Cymraeg a ganlyn yr un ystyr â'r geiriau a'r ymadroddion Saesneg cyfatebol a ddefnyddir yn y Ddeddf—

(a) awdurdod rheolaeth adeiladu ("building control authority") (gweler adran 121A o'r Ddeddf honno);

(b) cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu ("registered building control approver") (gweler adran 58N o'r Ddeddf honno);

(c) arolygydd cofrestredig adeiladu ("registered building inspector") (gweler adran 58B o'r Ddeddf honno).

### Cofrestru arolygwyr adeiladu

**2.** At ddibenion adran 58C(5) o'r Ddeddf, y cyfnod rhagnodedig ar gyfer cofrestru arolygydd cofrestredig adeiladu yw pedair blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r cofrestriad yn cael effaith.

### Cofrestru cymeradwywyr rheolaeth adeiladu

**3.** At ddibenion adran 58O(4) o'r Ddeddf, y cyfnod rhagnodedig ar gyfer cofrestru cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu yw pum mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r cofrestriad yn cael effaith.

---

(**1**) O.S. 2010/2214, a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/747 (Cy. 89), 2013/2621 (Cy. 258), 2014/110 (Cy. 10), 2015/1486 (Cy. 165), 2016/611 (Cy. 168), 2018/558 (Cy. 97); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**2**) 1971 p. 80.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Torri rheolau ymddygiad proffesiynol**

**4.** At ddibenion adran 58U(4)(b)(ii) o'r Ddeddf, pan fo Gweinidogion Cymru(**1**) yn gwneud gorchymyn disgyblu(**2**) mewn perthynas â chymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, roi copi o'r gorchymyn disgyblu i bob awdurdod lleol yng Nghymru yn achos—

(a) amrywio cofrestriad mewn ffordd a bennir yn y gorchymyn,

(b) atal cofrestriad dros dro am y cyfnod a bennir yn y gorchymyn, neu

(c) canslo cofrestriad o'r dyddiad a bennir yn y gorchymyn.

**Atal dros dro interim am doriad difrifol a amheuir**

**5.** At ddibenion adran 58V(4)(b)(ii) o'r Ddeddf, pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud (neu'n dirymu) gorchymyn o dan adran 58V o'r Ddeddf, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, roi copi o'r gorchymyn (neu hysbysiad am y dirymu) i bob awdurdod lleol yng Nghymru pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y toriad a amheuir mor ddifrifol fel eu bod, os ydynt yn penderfynu bod y toriad wedi digwydd, yn debygol o wneud gorchymyn o dan adran 58U(2)(d) o'r Ddeddf yn canslo cofrestriad y person.

**Apelio penderfyniad a wneir gan Weinidogion Cymru**

**6.**—(1) Pan ddarperir ar gyfer yr hawl i apelio o dan adran 58D(4), 58I(5), 58J(5), 58P(4), 58U(5), 58V(5), 58Z4(7), 58Z5(9), 58Z6(5) neu 58Z7(5) o'r Ddeddf, rhaid gwneud apêl i'r llys ynadon drwy gŵyn.

(2) Ni chaniateir gwneud apêl ond o dan un neu ragor o'r seiliau a ganlyn. Y seiliau yw bod penderfyniad Gweinidogion Cymru—

(a) yn wallus yn ffeithiol;

(b) yn anghywir yn gyfreithiol;

(c) yn afresymol;

(d) yn ddiffygiol yn weithdrefnol.

(3) Rhaid gwneud apêl o fewn 21 o ddiwrnodau perthnasol sy'n dechrau â'r diwrnod drannoeth y diwrnod y mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r ceisydd am y penderfyniad, neu o fewn y cyfnod

---

(**1**) Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod rheoleiddio o ran Cymru. Gweler adran 58A(b) o Ddeddf Adeiladu 1984.

(**2**) Gweler y diffiniad o "disciplinary order" yn adran 58U o Ddeddf Adeiladu 1984.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

estynedig hwnnw y caiff y ceisydd a Gweinidogion Cymru gytuno arno yn ysgrifenedig ar unrhyw adeg.

(4) Ar apêl, caiff llys ynadon gadarnhau, amrywio neu ddiddymu'r penderfyniad sydd wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru.

*Julie James*
Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru
1 Rhagfyr 2023